# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 21 Ionawr 2015** |
| Amser: | **09.19 – 10.31** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2644**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Alistair Davey, Llywodraeth Cymru**<br>**Stephen Gulliford, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Amy Clifton (Ymchwilydd)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle.

## 2 Ymgynghoriad ar drefniadau gofal a chymorth yn y dyfodol ar gyfer pobl sy'n cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol: sesiwn friffio ffeithiol.

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Griffiths. Roedd Stephen Gulliford yn dirprwyo ar ei ran.

2.2 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru am yr ymynghoriad ar drefniadau gofal a chymorth yn y dyfodol ar gyfer pobl sy'n cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol.

2.2 Cytunodd y swyddogion i ddarparu'r canlynol ar gyfer y Pwyllgor:

- astudiaethau achos sy'n dangos sut y bydd lefel y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir ar hyn o bryd i dderbynwyr y Gronfa Byw'n Annibynnol yn wahanol i'r hyn a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol;
- cadarnhad ynghylch a yw'r cyfrifoldeb dros y GBA wedi'i drosglwyddo o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru drwy orchymyn trosglwyddo swyddogaeth; ac
- eglurhad ynghylch a yw cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth a all fod yn ofynnol yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros y Gronfa Byw'n Annibynnol i Lywodraeth Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Ymgynghoriad ar drefniadau gofal a chymorth yn y dyfodol ar gyfer pobl sy'n cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol: ystyried y dystiolaeth.

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eglurhad mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r Gronfa Byw'n Annibynnol o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ar 1 Gorffennaf at 2015.

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Arloesi Meddygol: ystyried y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.
5.2 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar ei ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arloesi Meddygol a chytunwyd arno, yn amodol ar fân newidiadau.

## 6 Sesiwn graffu gyffredinol a chyllidol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: paratoi ar gyfer y sesiwn graffu.

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidogion i ofyn am wybodaeth cyn y sesiwn ar 19 Mawrth 2015, a bu'n trafod materion y bydd yr Aelodau am eu codi, o bosibl, yn ystod y sesiwn.